

Ein Cyfeirnod: DLIB/FOI/08-07-25

Diolch am eich cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a dderbyniwyd ar 8 Gorffennaf 2025 – rhif cyfeirnod FOI/08/07/25. Gallaf gadarnhau bod Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi cwblhau chwiliad o'i gofnodion ac yn datgan ei fod yn meddu ar wybodaeth sydd o fewn ffiniau eich cais. Gweler isod yr ymateb i'ch cais.

Data ar gyfran yr hyfforddeion orthopedig a oedd yn fenywod yn y blynyddoedd canlynol:

- 1988, a
- 2025 (neu'r ffigur mwyaf diweddar y gallwch ei ddarparu ar gyfer blwyddyn recriwtio 2024—2025)

Os nad oes ffigurau manwl gywir o 1988 ar gael, byddwn yn ddiolchgar am unrhyw amcangyfrifon, data cyd-destunol, neu ffigurau cymharol cynharaf sydd ar gael y gallai AaGIC neu ei rhagflaenwyr eu meddu arno.

Hyfforddiant Trawma a Llawfeddygaeth Orthopedig, Cymru Dechreuwyd y flwyddyn, fesul rhyw			
Blwyddyn Dechrau	Benywaidd	Gwrywaidd	Nifer yr Hyfforddeion
1996	0	1	1
1999	0	1	1
2003	1	0	1
2004	0	1	1
2005	3	1	4
2006	0	4	4
2007	2	14	16
2008	1	4	5
2009	1	3	4
2010	1	6	7
2011	0	15	15
2012	2	4	6
2013	2	8	10
2014	1	6	7
2015	1	4	5
2016	3	4	7
2017	2	6	8
2018	1	13	14
2019	3	14	17
2020	0	10	10
2021	2	4	6
2022	2	6	8
2023	2	12	14
2024	1	11	12
2025	2	8	10
2026	1	2	3
Cyfanswm	34	162	196

Nid yw AaGIC yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â chyfran yr hyfforddeion Orthopedig a oedd yn fenywod o 1988 i 1996. Mae'r data a ddarperir yn y tabl uchod yn dangos y niferoedd recriwtio yn ôl rhyw ers 1996. Rydym yn cadw data am gyfnod o 10 mlynedd yn unol â gofynion rheoleiddio. O ganlyniad, efallai na fydd y data a ddarperir yn gwbl gynhwysfawr. Er enghraifft, byddai unigolyn a recriwtiwyd yn 1996 yn debygol o fod wedi cwblhau ei hyfforddiant ac wedi rhagori ar y cyfnod cadw 10 mlynedd ar ôl CCT, sy'n golygu na fyddai eu cofnodion bellach yn cael eu cadw ar Intrepid.

Er mwyn cydymffurfio â'n dyletswydd i gynghori a chynorthwyo, fel y nodir yn adran 16 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu â Choleg Brenhinol y Llawfeddygon a allai fod yn gallu darparu'r wybodaeth hon. Darperir dolen i wefan Coleg Brenhinol y Llawfeddygon isod:

[Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr — Coleg Brenhinol y Llawfeddygon](#)



